Adran Gwaith a Phensiynau

# Ar ôl i chi wneud cais am **Lwfans Cyflogaeth a Chymorth Dull Newydd**

**Hawdd i'w Ddarllen**



Ein cyfeirnod: **NSESA2ERW**_1022

# Cynnwys


1 Cyflwyniad
Tudalen 3



2 Asesiad Gallu i Weithio
Tudalen 5



3 Beth sy'n digwydd yn yr asesiad
Tudalen 9




4 Grwpiau ESA
Tudalen 11

# 1 Cyflwyniad

Adran Gwaith
a Phensiynau

Mae Lwfans Cyflogaeth a Chymorth Dull Newydd yn fudd-dal gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

**ESA**
**Dull Newydd**

Weithiau fe'i gelwir yn **ESA Dull Newydd.**



Os oes gennych salwch, cyflwr iechyd neu anabledd, sy'n golygu na allwch weithio, efallai y gallwch gael ESA Dull Newydd.



Ar ôl i chi wneud cais am ESA Dull Newydd, efallai y bydd angen i chi gymryd rhan mewn Asesiad Gallu i Weithio.




Os byddwch yn gymwys ar ôl eich asesiad, cewch eich rhoi mewn grŵp ESA.




Bydd y wybodaeth hon yn dweud wrthych:

- Beth yw Asesiad Gallu i Weithio
- Am y grwpiau ESA.

I gael rhagor o wybodaeth Hawdd ei Darllen am ESA Dull Newydd, ewch i [www.gov.uk](http://www.gov.uk)

Chwiliwch am **ESA Dull Newydd Hawdd i'w Ddarllen**.

# 2 Asesiad Gallu i Weithio



Ar ôl i chi wneud cais am ESA Dull Newydd, fel arfer bydd angen i chi lenwi holiadur.

Rydym yn galw hwn yn **‘Holiadur Gallu i Weithio’**.




Byddwch yn cael llythyr gyda’ch holiadur, yn dweud wrthych beth i’w wneud.



Os ydych yn byw yng Ngogledd Iwerddon, bydd yr holiadur yn wahanol.

I gael rhagor o wybodaeth am ESA Dull Newydd yng Ngogledd Iwerddon, ewch i www.nidirect.gov.uk/articles/employment-and-support-allowance



Anfonwch eich holiadur wedi'i gwblhau atom.

Byddwn yn defnyddio hwn i benderfynu beth fydd yn digwydd nesaf.



Efallai y bydd angen i chi gael asesiad, naill ai wyneb yn wyneb neu dros y ffôn neu fideo.



Pwrpas eich asesiad yw darganfod sut mae eich salwch, cyflwr iechyd neu anabledd yn effeithio arnoch wrth weithio.

## Efallai na fydd angen asesiad ar rai pobl os:




- Rydych yn nesáu at ddiwedd eich oes ac yn debygol o fod â 12 mis neu lai i fyw.




- Rydych yn cael Credyd Cynhwysol ac eisoes wedi cwblhau asesiad.




Os gofynnir i chi gael asesiad, gallwch ofyn iddo gael ei recordio.



Os hoffech i'ch asesiad gael ei gofnodi, dywedwch wrth y **Gwasanaeth Cynghori ar Asesiadau Iechyd** cyn gynted â phosibl.




Bydd eu manylion cyswllt yn y llythyr apwyntiad.

# 3 Beth sy'n digwydd yn yr asesiad




Os gofynnir i chi gael Asesiad Gallu i Weithio, rhaid i chi fynychu.



Gall yr asesiad fod naill ai:

- Yn bersonol mewn canolfan asesu
- Trwy alwad fideo
- Dros y ffôn.



Gallwch gael rhywun arall gyda chi yn ystod eich asesiad. Gallai'r person hwnnw fod yn:

- Gofalwr
- Gweithiwr cymorth
- Ffrind neu ffrind i'r teulu
- Penodai.

I gael rhagor o wybodaeth am fynychu asesiad, ewch i www.gov.uk/government/publications/attending-a-face-to-face-health-assessment-during-covid-19.cy



Dywedwch wrth y Gwasanaeth Cynghori ar Asesiadau Iechyd cyn gynted â phosibl os hoffech ddod â rhywun arall i'ch apwyntiad.



Yn ystod yr asesiad, gofynnir cwestiynau i chi am eich cyflwr iechyd neu anabledd.




Bydd eich atebion yn ein helpu i benderfynu:

- Os gallwch gael neu os na allwch gael ESA Dull Newydd
- Ym mha grŵp ESA y dylech fod, os gallwch ei gael.

# 4 Grwpiau ESA




Os bydd eich cais ESA Dull Newydd yn llwyddiannus, cewch eich rhoi mewn grŵp. Bydd y grŵp naill ai'n:

- Grŵp gweithgareddau sy'n cysylltiedig â gwaith
- Grŵp cymorth.

## Grŵp gweithgareddau sy'n gysylltiedig â gwaith



Byddwch yn y grŵp gweithgaredd cysylltiedig â gwaith os na allwch weithio nawr, ond y gallwch ddechrau paratoi i weithio rywbryd yn y dyfodol.

canolfanbydgwaith

Adran Gwaith
a Phensiynau

Byddwch yn cael cyfweliadau rheolaidd gydag anogwr gwaith yn eich swyddfa Canolfan Byd Gwaith leol.



Bydd eich anogwr gwaith yn eich helpu i:

- Gwella’ch sgiliau
- Eich paratoi ar gyfer mynd yn ôl i’r gwaith.



Gallai hyn gynnwys hyfforddiant neu sut i ysgrifennu CV.




Mae angen i chi fynychu’r cyfweliadau hyn, neu efallai y bydd eich taliad budd-dal yn cael ei leihau.

Gelwir y gostyngiad hwn yn **sancsiwn**.

I gael rhagor o wybodaeth am sancsiynau, ewch i [www.gov.uk/guidance/new-style-employment-and-support-allowance.cy#os-ydych-yn-derbyn-sancsiwn](www.gov.uk/guidance/new-style-employment-and-support-allowance.cy#os-ydych-yn-derbyn-sancsiwn)

## Grŵp Cefnogi



Byddwch yn y grŵp cymorth os yw eich anabledd neu gyflwr iechyd yn cyfyngu'n ddifrifol ar eich gallu i weithio.

Ni fydd yn rhaid i chi ddechrau paratoi ar gyfer gwaith yn y dyfodol.



Hefyd ni fydd gennych:

- Cyfweliadau rheolaidd gydag anogwr gwaith oni bai eich bod yn gofyn amdanynt
- Cyrsiau hyfforddi oni bai eich bod yn dymuno.

I gael rhagor o wybodaeth am ESA Dull Newydd, ewch i [www.gov.uk/guidance/new-style-employment-and-support-allowance.cy](http://www.gov.uk/guidance/new-style-employment-and-support-allowance.cy)